

Zion's Trumpet: 1849 Welsh Mormon Periodical

Ronald D. Dennis

Rhagarweiniad

Chwaraeodd y wasg rhan bwysig yn y cynnydd cyflym o Formoniaeth yng Ngymru rhwng 1845 a 1848. Er na chafodd pamffled cyntaf Capten Dan Jones, a gyhoeddwyd yn 1845, effaith ar unwaith, cafodd ymateb llosg David Williams yn Rhagfyr yr un blwyddyn ddechrau rhyfel o eiriau rhwng Mormoniaid Cymraeg a'i llawer beirniaid a barhodd am llawer mwy na deng mlynedd.

Roedd yr amryw cyhoeddiadau crefyddol o'r amser yn haelionus o'i colofnau i erthyglau yn erbyn Mormoniaith, ond yn gwrthod lle i'r gwrthbrofiadau a anfonwyd gan Dan Jones. Yr unig ateb rhesymol ym marn Jones oedd i'r Mormoniaid i sefydlu cofnodolyn iaeth Gymraeg eu hunain. Yr oedd y Millennial Star yn cael ei gyhoeddu yn Lerpwl ond o ddim defnydd i'r Cymry am fod y mwyafrif ohonynt ddim yn siared Saesneg.

Gyda llai na wyth cant o Fomoniaid yng Nghymru yn 1846, roedd argraffu a lledaenu cyhoeddiad misol yn dasg frawychus. Ond yn Gorffennaf 1846, gyda cydweithriad llawn o frawd henaf Dan Jones sef John, Gweinidog Cynulleidfaol ordeiniedig yn meddu ei wasg argraffu ym mhentref bach Rhydybont, Sir Gaerfyrddin, daeth Prophwyd y Jiwibili i wneud brwydr gyda unrhyw un a faeddiog gwrthwynebu neu beirniadu y symudiad Mormonaidd yng Nghymru.

Bob mis am y dwy flynedd a chwech mis nesaf gwnaeth Prophwyd y Jiwibili waith swyddogol i Eglwys Iesu Grist Saint y Dyddiau Diwethaf yng Nghymru. Yna, yn Rhagfyr 1848 yn y rhagarweiniad i'r trydydd a'r terfynnol gyfrol o'r cyfnodolyn dihafal hwn, hysbysodd Dan Jones na fyddai yn cael ei gyhoeddi mwyach:

"Nid am na all ddod atoch eto, yw'r achos o'i ataliad; ond rydym o'r farn ei fod erbyn hyn yn haeddu mynd i'w 'orffwysfa,' ers iddo redeg ei ras, a chadw'r ffydd." Cyhoeddodd Jones byddau cyfnodol newydd, Udgorn Seion, yn ei le yn cychwyn cyhoeddi. Mae'n debyg bod y teitl newydd wedi'i ysbridolu gan y geiriau gan Joel 2:1: *"Canwch utgorn yn Seion, bloeddiwch ar fy mynydd sanctaidd."*

Roedd yr 'Utgorn' i'w chwythu yng Nghymru yn lle seion, ac roedd y larwm i gael ei seinio i'r ffyddloniaid adael 'Babylon' (Wales) a chasglu i 'Seion' (Dinas y Llyn Halen). Er mwyn pwysleisio'r brys i adael Cymru, roedd arwyddair Beiblaidd newydd i'w fabwysiadu: er mwyn: *"Dewch allan ohoni, fy mhobl, rhag i chwi gyfranogi o'i phechodau, ac o'i phlu dderbyn rhan."* (Datguddiadau 18:4)

Yn rhifyn Rhagfyr o Prophwyd y Jubili (191) cynigiwyd esboniad manylach am amddyngosiad Udgor Seion:

Rydym yn ystyried yr enw i fod yn briodol ar gyfer y gwaith y bydd yn ei wneud, megis ei brif bwrpas fydd cyhoeddi'r newyddion rhyfeddol a'r cyngor diddorol sy'n dyfod o'r ffynhonnell dduwiol honno yn Seion, fel y gall ei phlant i gyd sydd wedi gwasgaru ledled Cymru yfed o'i nentydd, I ddiffodd eu syched trwy anialwch Babilon adref; a gobeithiwn wrth i'r teithiwr blinedig syched am ddwr y ffynnon oer ar y ffordd, y bydd y Saint, a'r holl danysgrifwyr, bob lleuad newydd yn hiraethu am i'r Utgorn i seinio digwyddiadau Seion yn eu clustiau, a'i arweiniad ar gyfer eu traed yn dymherol ac yn ysbrydol.

Ar y pwynt hwn roedd Capten Dan Jones yn diwedd ei genhadaeth cyntaf i Gymru ac yn gwneud paratodau i deithio i Seion y Mormoniaid yn y Rocky Mountains gyda dros tri cant o'i gydwladyr a oedd wedi trosi i Formoniaeth. I ddisodli ef fel golygydd y cyfnodolyn ac i fod wrth y llyw o'r cwbl o'r cyhoeddi yng Nghymru, enwodd Jones John Davis, a ddisgrifiodd fel "dyn ffyddlon" a "meistr argraffydd Cymraeg" (Millennial Star 11:40). Roedd cylchrediad y cyfnodolyn i'w gynyddu i dwy fil a'i faint wyth tudalen yn hirach na Prophwyd y Jiwibili.

Trwy y pum mlynedd nesaf byddau John Davis yn byw hyd at y ddau label a roddwyd iddo gan Dan Jones. Yn ogystal a bod yn olygydd o Udgor Seion, byddau Davis hefyd yn cyhoeddi dau Llyfr Emynu, sawl pamffled a cherddi, a chyfiethiadau o'r Llyfr Mormon, Athrawiaeth a Chyfamodau, a'r Perl o Bris Gwych. A phan ryddhawyd Davis o'i gyfrifoldeg cyhoeddi ar ddiwedd 1853 fe wnaeth Capten Dan Jones, yn ol ar ei ail genhadaeth i Gymru, a gymerodd ei le.

Ganwyd John Davis ar y 7fed o Fehefin yng Nghaerfyrddin, yr oedd yn chwech ar hugain pan ddaeth yn ogylydd o Udgor Seion. Bu ei droedigaeth i Formoniaeth dwy flynedd a hanner gynt wedi cael dylanwad mawr gan ei gysodi a phrawfddarlenn o bamffledi Dan Jones a argraffwyd ar y wasg gan y Parch John Jones lle'r roedd Davis yn cael ei gyflogi ar y pryd. Er ei ieuenctid a byr amser yn y ffydd, fe brofodd John Davis yn alluog iawn yn ei ddyletswyddau golygyddol and yn ei amddiffyniad groyw o athrawiaeth Mormonaidd.

Dangosodd hollbresenoldeb Davis trwy y cyfrol cyntaf hwn o Udgor Seion yn datgelu ei wynebau niferus: wyneb coegni gyda cyffyrddiad o hunan gyfiawnder yn ei ymgyrch gwrth dybaco a ddachreuodd ar dudalen 115; wyneb ysbrydolrwydd fel y mae'n dweud sut y cafodd plentyn glowr ei iachau trwy osod dwylo gan "henadur" (Davis ei hyn yn fwyaf tebygol) ar tudalen 120; wyneb soffistigedigrwydd a mynegiant ei dansoddiadau gofalus o'r "doniau ysbrydol" yn ateb y sylwadau a wnaed gan "Sylwedydd" mewn cyfnodolyn y Bedyddwyr yn dechrau ar tudalen 67; wyneb goruchelrwydd wedi uno gyda dichter y gellir ei gyfiawnhau am y "rhigwm hunan-dybus" ar tudalen 212; a wyneb hiwmor yn y chwedlau byr drwodd.

Mae ei allu anghyffredin fel ysgrifennwr wedi bod heb ei ddarganfod i'r presennol i raddau helaeth am ei fod yn mynegi ei hunan mewn iaeth a ddiflannodd o'r byd Mormonaidd mewn ychidig ddegawdau o'i droedigaeth. Ond mae'r gallu yn dryloyw hyd yn oed yn nhrawsiadau Saesneg ei ysgrifau, yn hawdd ei gydnabod fel un ar yr un lefel a Parley P. Pratt a Orson Pratt- dau wr yr oedd yn eu hedmyu'n fawr. Gwnaeth dehurwydd Davis ddangoswydd yn ei gyfeithiadau Cymraeg o weithiau safonol y Mormoniaid yn ddim llai na gwych ac yn ysbrydoledig, yn enwedig wrth ystyried bod y tri wedi'u cyfieithu a'u cyhoeddi mewn cyfnod o tua deunaw mis. Yma eto mae haneswyr Mormonaidd wedi anwybyddu'r cyflawniad hwn oherwydd y rhwystr iaeth.

Argraffwyd y rhifau cyntaf a'r ail o Udgorn Seion yn Caerfyrddin lle roedd gan Davis ei wasg ei hun lle roedd wedi argraffu'r ddau rif olaf o Prophwyd y Jiwibili. Erbyn Mawrth 1849 roedd Davis wedi symud y wasg a'i effeithiau personol ei hun i Merthyr Tidfil lle am y tro cyntaf byddai gwasg Mormonaidd yn yr un lle a'r arweiniaeth Mormon yng Nghymru. Ni fyddau angen cludo'r deunyddiau bob mis i Sir Gaerfyrddin i'w hargraffu mwyach.

Wedi ei gyfieithu gan: Rozell Kania